**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
20 Mehefin 2023

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023 (‘y Rheoliadau’) yn diwygio’r rhestr o a awdurdodau Cymreig perthnasol yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (‘Deddf 2010’) er mwyn ychwanegu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (‘y Comisiwn’), a dileu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (‘CCAUC’)

Daw’r darpariaethau hynny i rym ar 4 Medi 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn dymuno nodi bod y Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 2010 i wneud y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion adran 149 o'r Ddeddf honno, a thrwy hynny’n gwneud y Comisiwn yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, hynny yw'r ddyletswydd 'sylw dyladwy' i sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu, a’r angen i feithrin perthynas dda rhwng personau sy’n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu, yn ystyriaethau allweddol pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Bydd y ddarpariaeth drosiannol yn y Rheoliadau mewn perthynas â CCAUC yn gymwys hyd nes y bydd adran 23 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dod i rym, y darperir ar ei gyfer drwy Orchymyn cychwyn cyn i'r Comisiwn ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2024.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae’r pwerau sy’n galluogi i’r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi eu cynnwys yn adran 151(2) o Ddeddf 2010. Mae adran 151(2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu awdurdod Cymreig perthnasol at Ran 2 o Atodlen 19, ar yr amod eu bod wedi ymgynghori â’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn rhinwedd adran 209(2), (3)(b) a (6) o Ddeddf 2010.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a byddant yn dod i rym ar 4 Medi 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae’r Rheoliadau yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 o Ddeddf 2010 er mwyn gwneud y Comisiwn yn awdurdod Cymreig perthnasol at ddibenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddileu’r cyfeiriad at CCAUC.

Sefydlwyd y Comisiwn gan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (fel y’i cychwynnwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022).

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n darparu y dylid darllen y cyfeiriad at y Comisiwn fel petai'n cynnwys cyfeiriad at CCAUC tan y bydd adran 23 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael ei dwyn i rym. Mae adran 23 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn darparu ar gyfer diddymu CCAUC.

## 5. Ymgynghori

Yn unol ag adran 152(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac maent wedi cadarnhau eu bod yn fodlon i'r Rheoliadau gael eu gwneud, gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru yn adran 151(2).

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a ddaeth gyda'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, pan gyflwynwyd honno i'r Senedd, yn asesu'r costau a'r manteision posibl a oedd yn gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn.

Cymerwyd yn ganiataol, at ddiben yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, y byddai arfer dyletswyddau megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn rhywbeth a wneir gan swyddogaeth y Comisiwn fel corff corfforedig, ac mae costau arfer dyletswyddau o'r fath wedi'u cynnwys yn yr ystod o gostau y darperir ar eu cyfer yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a ddaeth gyda'r Ddeddf.